# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Beacons Park Short Stay**

**Aberhonddu**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 11 Awst 2022

11/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Beacons Park Short Stay

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Cartrefi Cymru Co-operative Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Gorffennaf 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Beacons Park yn darparu arosiadau byr (seibiant) i bobl 18 oed a hŷn. Mae gan y darparwr gwasanaeth, Cartrefi Cymru Co-operative, dri gwasanaeth arhosiad byr sy’n rhannu staff gofal yn ôl y galw. Nid yw Beacons Park yn gweithredu i’w gapasiti llawn eto yn dilyn pandemig a chyfyngiadau COVID-19, ac ar hyn o bryd dim ond tîm bach o staff sydd ei angen i gefnogi'r bobl sy’n aros yn y gwasanaeth. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi manylion da ynghylch sut yr hoffai'r bobl gael eu gofal a’u cymorth. Nodir meysydd ar gyfer asesu risg, ond nid yw rhai asesiadau wedi'u cwblhau'n llawn. Mae angen gwella'r broses o adolygu arosiadau blaenorol y bobl, a'u hamgylchiadau a'u hanghenion cyn eu harhosiad nesaf. Nid yw rheolwr y gwasanaeth yn gweithio ar hyn o bryd, ond mae'r rheolwyr ardal yn darparu pwynt cyswllt ac mae'r staff gofal yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda ganddyn nhw a'r unigolyn cyfrifol. Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio a'u fetio'n briodol ac mae eu hyfforddiant a'u goruchwyliaeth yn gyfredol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro â'r gwasanaeth ac yn defnyddio'r rhain i lywio adroddiadau ansawdd gofal bob chwe mis i barhau i chwilio am ffyrdd o ddatblygu'r gwasanaeth.

## Llesiant

Cefnogir y bobl i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn gwrando ar y bobl ac yn eu hannog i wneud eu dewisiadau eu hunain. Os yw'r bobl fel arfer yn mynychu gwaith, coleg neu glybiau, mae'r staff gofal yn cynorthwyo parhau’r arferion tra yn Beacons Park. Gwelsom fod y bobl yn gallu gwneud cais i ymweld â lleoedd yr hoffent fynd ac i wneud pethau yr hoffent eu gwneud yn ystod eu harhosiad. Yn ddiweddar, aeth y staff gofal â rhywun i weld The Lion King yng Nghaerdydd. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys ymweliadau â’r sinema, teithiau diwrnod, a phrydau allan. Gall y bobl ofyn am eitemau bwyd neu brydau yr hoffent eu cael yn ystod eu harhosiad ac mae’r staff gofal yn gwneud eu gorau i hwyluso hyn. Mae tîm bach o staff, y rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio i'r gwasanaeth ers amser maith. Maent yn adnabod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dda, gan fod y rhan fwyaf o'r bobl yn aros yn rheolaidd.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Archwilir hanes y staff gofal, ac mae hyfforddiant a goruchwyliaeth ar waith, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryder ynglŷn â diogelu, ac mae polisi diogelu ar gael iddynt pe bai angen arweiniad pellach arnynt. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi gostwng ers pandemig COVID-19. Ar hyn o bryd, dim ond un person sy'n tueddu i aros yn y gwasanaeth ar y pryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y rheolwr yn ystyried cydnawsedd rhwng y bobl a allai ddymuno aros yn Beacons Park gyda'i gilydd, a ph’un a oes risg o niwed ai peidio. Dywedodd y staff gofal eu bod rhywfaint yn bryderus am aros ar eu pen eu hunain gydag unigolyn sy'n gallu dangos ymddygiad heriol, ond maent wedi cael hyfforddiant mewn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac wedi cael cynnig cymorth gan reolwyr i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn.

Mae'r amgylchedd yn Beacons Park yn cefnogi llesiant y bobl. Mae ystafell wely ar y llawr gwaelod ar gael i'r bobl nad ydynt yn gallu ymdopi â'r grisiau. Mae pob ystafell wely yn eang ac mae naws gartrefol iddynt. Mae cymhorthion ac addasiadau yn galluogi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i gynnal eu hannibyniaeth. Mae man awyr agored defnyddiol a dymunol, y mae'r staff gofal yn ei gynnal gyda chymorth y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cynlluniau personol yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a phwysig o asesiadau Awdurdod Lleol a chynlluniau gofal. Mae hoff bethau a chas bethau'r bobl, a'r arferion a ffefrir yn cael eu cynnwys drwyddi draw. Mae'r pwyslais ar wneud pethau mor gyfarwydd a chyfforddus â phosibl i'r bobl. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau risg ar waith ac yn rhoi arweiniad ar bryd a sut y dylai'r staff gofal ymyrryd. Gwelsom archwiliad o ffeiliau gofal yn nodi nad oedd rhai asesiadau risg wedi'u cwblhau, a gwnaethom hysbysu'r darparwr gwasanaeth nad oedd y rhain wedi'u cwblhau o hyd. Mae yna broses ar gyfer adolygu amgylchiadau ac anghenion y bobl rhwng eu harosiadau, ond nid yw hyn yn cael ei dilyn bob amser. Dylid gofyn i'r bobl, a'u teuluoedd, am unrhyw newidiadau mewn amrywiaeth o feysydd megis meddyginiaeth, anghenion iechyd, ac ymddygiad, fel y gellir diweddaru cynlluniau personol ac asesiadau risg a sicrhau bod gan y staff gofal yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu'r gofal a chymorth gorau posibl. Mae hwn yn faes i'w wella y byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor iach ag y gallant fod yn ystod eu harhosiad. Mae'r staff gofal wedi cael eu hyfforddi mewn meysydd fel ymateb i drawiadau epileptig, sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi yn Beacons Park. Mae'r holl staff gofal wedi cael hyfforddiant meddyginiaeth, ac maent yn cael arsylwadau dirybudd gan reolwyr wrth roi meddyginiaeth, i sicrhau eu bod yn gwneud y dasg hon yn gywir ac yn ddiogel. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol. Mae'r bobl yn dod â dim ond digon o feddyginiaeth o gartref ar gyfer eu harhosiad. Mae'r staff gofal yn archebu ac yn casglu presgripsiynau ar gyfer y bobl yn ystod eu harhosiad os oes angen. Gwelsom enghreifftiau o gyswllt rhwng y rheolwr a gweithwyr proffesiynol eraill, megis ymgynghorydd anabledd dysgu a gweithiwr cymdeithasol, yn ogystal ag aelodau o'r teulu, er mwyn gallu darparu'r cymorth gorau posibl i'r bobl.

Mae prosesau rheoli heintiau ar waith. Mae'r staff gofal yn cwblhau amserlen lanhau drylwyr, gan annog y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth i helpu lle gallant. Ar y diwrnod y gwnaethom ymweld â'r cartref, roedd yn ymddangos yn lân. Mae cyfleusterau golchi dillad hefyd ar gael os oes angen. Mae'r staff gofal yn cael eu profi'n rheolaidd am COVID-19, fel y mae'r unigolion hynny sy'n gallu cydsynio i brawf yn cael eu profi cyn cyrraedd am eu harhosiad. Mae'r ymwelwyr yn cwblhau prawf llif unffordd cyn iddynt ddod ac mae pawb yn cael gwiriadau tymheredd bob tro maen nhw'n dod i mewn i'r cartref.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac yn addasadwy i anghenion a dewisiadau'r bobl. Mae yna ystafell wely ar y llawr gwaelod a thoiled sy'n addas ar gyfer y bobl sydd â phroblemau symudedd na allant ddefnyddio'r grisiau. Mae teclyn codi a chymhorthion ymolchi i helpu symudedd yn yr eiddo ac yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw fel eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae dwy ystafell wely ac ystafell ymolchi ychwanegol yn cael eu defnyddio ar y llawr uchaf, a lolfa gymunol a chegin/ystafell fwyta ar y llawr gwaelod. Gall y bobl ddewis pa ystafell wely y byddai'n well ganddynt aros ynddi. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn aros i waith ail-baentio ac ailaddurno ddechrau. Mae man awyr agored dymunol a hygyrch i'r bobl ei ddefnyddio. Caiff hwn ei gynnal gan aelod o staff, ac anogir y bobl i wneud rhywfaint o arddio yn ystod eu harhosiad os dymunant.

Mae'r cartref yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod. Gwelsom dystiolaeth o wasanaethu a chynnal a chadw offer a chyfleustodau yn rheolaidd. Mae aelod o staff yn cwblhau profion a gwiriadau rheolaidd o larymau tân ac offer. Cedwir cynlluniau gadael mewn argyfwng personol pobl mewn ffeil hawdd ei chyrraedd rhag ofn y bydd argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae yna dîm staff hirsefydlog sy'n gweithio'n hyblyg i sicrhau bod y bobl yn cael y lefel gywir o gymorth. Cwblheir rotâu staff ochr yn ochr â ffurflenni archebu i baru tîm y staff â'r bobl sy'n aros ar yr adeg honno. Nid oes unrhyw staff achlysurol neu staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Os nad oes unrhyw un yn aros yn y gwasanaeth, mae Beacons Park yn cau ac mae'r staff yn gweithio yn un o'r chwaer wasanaethau.

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan staff gofal sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi. Gwnaethom samplu rhai o ffeiliau personél y staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth recriwtio ofynnol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o gyfleoedd i gael hyfforddiant a gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff yn Breacons Park wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi parhau i gael eu sesiynau goruchwylio unigol gydag un o'r rheolwyr ardal tra nad yw eu rheolwr yn y gwaith, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu gofyn cwestiynau iddynt ar unrhyw adeg. Mae'r staff gofal yn trosglwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar wrth newid pob shifft a cheir dyddiadur i ysgrifennu unrhyw apwyntiadau neu dasgau sydd i ddod. Mae rotâu'r staff hefyd yn cynnwys unrhyw nodiadau ychwanegol y gall fod angen iddynt wybod am eu shifft.

Mae systemau ar waith i oruchwylio, dadansoddi a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl sy'n aros yn Beacons Park. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro ac yn adrodd ar yr amgylchedd, unrhyw faterion yn y cartref, ac yn casglu adborth gan y staff a'r bobl sy'n aros ar adeg yr ymweliad. Yna, bob chwe mis, mae adroddiad ansawdd gofal yn cael ei gynhyrchu, sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y gwasanaeth a'r hyn sydd angen rhywfaint o newid neu ddatblygiad. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer amrywiaeth o bynciau megis diogelu, meddyginiaeth, a chwythu'r chwiban ar gael ar-lein i'r staff gofal i roi unrhyw arweiniad neu gyfarwyddyd iddynt pe bai ei angen arnynt.

| Crynodeb o’r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Rhaid adolygu gwybodaeth am anghenion y bobl er mwyn sicrhau bod cynlluniau personol ac asesiadau risg yn gywir. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/09/2022